## PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## ADRODDIAD CYNNYDD I'R CYFARFOD LLAWN

### Diben

1. Holi barn y Pwyllgor ar yr Adroddiad Cynnydd drafft i'r Cyfarfod Llawn.

### Argymhelliad

2. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad cynnydd a amgaeir gyda'r papur hwn.

### Cefndir

3. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn caniatáu i'r pwyllgorau adrodd i'r Cynulliad o dro i dro ar hynt eu rhaglenni gwaith. Bydd pob un o'r Pwyllgorau Pwnc yn cyflwyno adroddiad ac fe'u trafodir yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mai.

4. Hwn yw adroddiad drafft cyntaf y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, er i'w ragflaenydd, y Pwyllgor Llywodraeth Leol, Amgylchedd, Cynllunio Tai a Thrafnidiaeth, gyflwyno adroddiad a drafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror 2000. Mae'r adroddiad drafft yn cwmpasu'r cyfnod o gyfarfod cyntaf y Pwyllgor ym mis Ebrill 2000 hyd at ddiwedd tymor y gwanwyn eleni.

5. Wedi i'r Pwyllgor roi ei sylwadau ar y copi drafft, bydd yr adroddiad, ynghyd â blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'w trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Mai.

## PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## ADRODDIAD I'R SESIWN LLAWN: EBRILL 2000 – EBRILL 2001

### Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad Cenedlaethol. Gwneir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 9.9, sy'n caniatáu i'r pwyllgorau

adrodd i’r Cynulliad o dro i dro ynghylch eu cynnydd wrth gyflawni eu rhaglenni gwaith. Mae’n cwmpasu’r cyfnod o gyfarfod cyntaf y Pwyllgor ym mis Ebrill 2000 hyd at ddiwedd tymor y gwanwyn 2001.

2. Cadeirydd y Pwyllgor yw Gwenda Thomas. Yr aelodau eraill ar hyn o bryd yw

Peter Black, Janet Davies, William Graham, Edwina Hart (Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau), Peter Law, Dai Lloyd, Tom Middlehurst a Janet Ryder.

3. Cafwyd nifer o newidiadau yn yr aelodaeth ers ethol y Pwyllgor am y tro cyntaf ar 29 Mawrth 2000. Fe’u rhestrir yn **Atodiad 1**.

4. Cyfarfu’r Pwyllgor ugain o weithiau yn ystod cyfnod yr adroddiad.

**Dull Gweithio**

5. Mae’r Pwyllgor wedi datblygu dull gweithio agored a chyfranogol. Cynhaliwyd yr holl bwyllgorau yn gyhoeddus. Mae wedi cysylltu’n agos â phartneriaid y Cynulliad Cenedlaethol, yn enwedig y rhai sy’n gweithio ym meysydd llywodraeth leol a thai. Ceir rhestr o’r cyrff allanol sydd wedi cyfrannu i drafodaethau’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn **Atodiad 2**.

6. Mae gan y Pwyllgor berthynas gwaith agos â’r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol. O blith aelodau cyfredol y Pwyllgor, mae Peter Black, Janet Davies, William Graham, Edwina Hart, Dai Lloyd, Tom Middlehurst, Janet Ryder a Gwenda Thomas yn aelodau o’r Cyngor Partneriaeth.

7. Hefyd mae gan y Pwyllgor gysylltiadau agos â’r Comisiwn Digartrefedd, sy’n cydlynu’r gweithredu i daclo digartrefedd a chysgu ar y stryd yng Nghymru. Peter Black yw Cadeirydd y Comisiwn ac mae’r aelodau’n cynnwys Gwenda Thomas.

8. Mae’r Pwyllgor yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau â phwyllgorau cyfatebol yn sefydliadau datganoledig eraill y Deyrnas Unedig. Cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol â Phwyllgor Llywodraeth Leol Senedd yr Alban ym mis Hydref 2000.

**Cylch gwaith a chyfrifoldebau’r Pwyllgor**

9. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cydfynd â chylch gwaith Edwina Hart, Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae ei gylch gwaith yn cynnwys polisi a materion cyllid llywodraeth, tai, adfywio trefol ac atal troseddu. Nid yw, fodd bynnag, yn mynd i’r afael â chyfrifoldebau Edwina Hart fel Gweinidog Cyllid.

10. Yn yr hydref, cyflwynodd y Pwyllgor nifer o sylwadau i'r Cabinet a Phrif Weinidog y Cynulliad ar fater cyfrifoldeb Gweinidogaethol dros gyfiawnder ieuenctid. Yn dilyn ad-drefnu'r Cabinet ym mis Hydref 2000, cafodd hwn ei ddyrannu i bortffolio Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Teimlai'r Pwyllgor yn gryf fod y cyfrifoldeb am gyfiawnder ieuenctid yn cydfynd yn fwy priodol â phortffolio Edwina Hart ar y cyd â'i chyfrifoldebau am ddiogelwch y gymuned a llywodraeth leol yn gyffredinol. Mae Prif Weinidog y Cynulliad wedi ymrwymo i ystyried barn y Pwyllgor pan fydd yn ystyried dyrannu cyfrifoldebau i Weinidogion y tro nesaf.

11. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn y Rheolau Sefydlog, a atgynhyrchir yn **Atodiad 3**.

**Nodau, amcanion a blaenoriaethau**

12. Nod y Pwyllgor yw llwyddo i gael gwell ansawdd bywyd i bobl Cymru a hyrwyddo gwell llywodraeth a llywodraeth symlach. Dyma'i amcanion:

- Helpu pobl leol, yn arbennig y rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, i ddatblygu cymunedau hyderus, gyda chartrefi gweddus, cyfleusterau lleol da ac amgylchedd o ansawdd uchel, sy'n anfygythiol a heb drosedd;
- Darparu gwerth am arian ar gyfer pobl Cymru, gyda gwasanaethau gwell a mwy effeithlon;
- Symleiddio gwaith y Cynulliad a rhoi llawer mwy o bwyslais ar anghenion a barn ein partneriaid a'r cyhoedd, gan gynnwys grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n deg.

13. Mae'r nodau a'r amcanion hyn yn cydfynd â'r rhai a bennwyd yn *Gwellcymru.com*, cynllun strategol y Cynulliad.

14. Mae'r Pwyllgor yn rhoi llawer o bwyslais ar:

- Ddatblygu strategaeth dai genedlaethol, gyda'r bwriad o sicrhau bod gan bawb gartrefi gweddus a chael gwared ar ddigartrefedd;
- Moderneiddio llywodraeth leol, gan gynnwys datblygu strwythurau rheoli gwleidyddol newydd, datblygu cytundebau polisi gyda llywodraeth leol, datblygu'r gyfundrefn gwerth gorau a chyflwyno strategaethau cymuned ac ystyried rôl arwain cymunedau yr awdurdodau lleol;
- Cyflwyno a datblygu fformiwla asesiad gwariant safonol diwygiedig, fel bod y cymorth refeniw ar gyfer awdurdodau lleol yn cael ei ddyrannu ar sail asesiad tecach o'u anghenion.

**Y Gwaith a'r cyflawniadau hyd yma**

***Datblygu Polisi – Rheol Sefydlog 9.7(i)***

***(i) Tai ac adfywio cymunedau***

15. Mae'r Pwyllgor wedi cefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu'r strategaeth dai genedlaethol, gan ystyried adroddiadau'r Grwpiau Tasg a gyfrannodd i ddatblygiad y strategaeth yn fanwl, a'r papur ymgynghorol *Gwell Tai ar gyfer Pobl Cymru*. Hefyd bu'r Pwyllgor yn gyfrifol am ddarparu ymateb i'r Papur Gwyrdd ar Dai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU.

16. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried llawer o agweddau ar bolisi tai yn unigol. Mae hyn yn cynnwys digartrefedd a chysgu ar y strydoedd, y rhaglen Cefnogi Pobl, y safon addasrwydd tai, Tai Aml-Breswyliad, y Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai, polisi rhent ar gyfer tai cymdeithasol, y Strategaeth Dai ar gyfer Pobl Dduon a Lleifafrifoedd Ethnig, 'Ailfeddwl am Adeiladu', effeithlonrwydd ynni yn y cartref a chartrefi am oes.

17. Mae'r Pwyllgor wedi bod yn arbennig o bryderus am gyflwr gwael llawer o stoc tai cyngor Cymru, a sut i sicrhau'r buddsoddiad sy'n angenrheidiol i oresgyn yr holl waith trwsio a moderneiddio sy'n aros i gael ei gyflawni. Yn sgil hyn, mae'r Pwyllgor wedi cyflawni adolygiad o bolisi'r Cabinet ar drosglwyddo'r stoc tai cyngor. Roedd hwn yn waith mawr, yn cynnwys sesiynau ymgynghori ysgrifenedig ac ar lafar, sesiynau briffio anffurfiol a nifer o ymweliadau â sefydliadau trosglwyddo stoc tai yn Lloegr.

18. Casgliad yr adolygiad polisi oedd mai'r opsiwn mwyaf syml ar gyfer sicrhau'r buddsoddiad sy'n angenrheidiol fyddai newid y system cyllido llywodraeth leol i ganiatáu i gynghorau fenthyca arian ar yr un telerau â chymdeithasau tai. Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cabinet barhau i roi pwysau ar y Trysorlys ar y pwynt yma. Fel arall, ym marn y Pwyllgor, dylai trosglwyddo'r stoc i landlord cymdeithasol cofrestredig, gyda mesurau diogelu priodol ar gyfer tenantiaid, barhau i fod yn opsiwn sy'n agored i awdurdodau lleol ar gyfer moderneiddio eu stoc tai. Bydd adroddiad yr adolygiad yn cael ei ystyried yn ystod y sesiwn llawn ar 24 Mai.

19. O ran adfywio cymunedau, mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb mawr yn y *Cymunedau Cynaladwy i'r Dyfodol* yn ogystal a datblygu'r rhaglen *Cymunedau'n Gyntaf*. Hefyd bu'n ystyried agweddau datblygu cymunedau y strategaethau gweithredu yng Nghymoedd De Cymru.

***(ii) Moderneiddio llywodraeth leol***

20. Cyfrannodd y Pwyllgor at ddatblygiad y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol a gymeradwywyd gan y sesiwn llawn ym mis Gorffennaf 2001. Ystyriwyd prif themâu rhaglen y

Cabinet ar gyfer moderneiddio llywodraeth leol, yn cynnwys y fframwaith foesegol newydd ar gyfer cynghorwyr a swyddogion, cyflwyno cytundebau polisi rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac awdurdodau lleol a datblygu'r gyfundrefn gwerth gorau. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb mawr yn y strwythurau rheoli gwleidyddol newydd, yn cynnwys yr un a adwaenir fel y 'pedwerydd opsiwn' sy'n caniatáu i awdurdodau lleol fabwysiadu strwythur pwyllgorau mwy modern gyda gwell pwerau craffu ac archwilio ar y cyd â'r system cabinet.

21. Mae'r Pwyllgor wedi cyfrannu at y gwaith parhaus o ddatblygu strategaethau cymuned gan awdurdodau lleol, yn ogystal â'r pwer newydd sy'n caniatáu i awdurdodau hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd. Hefyd bu'n ystyried y Gorchymyn arfaethedig i ganiatáu i awdurdodau lleol ystyried materion 'anfasnachol' wrth ystyried tendrau a dyfarnu contractau.

***(iii) Cyllid llywodraeth leol***

22. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yn adolygiad y fformiwla asesiad gwariant safonol, sy'n sylfaen i ddosbarthu cefnogaeth refeniw i awdurdodau lleol. Roedd yr adolygiad yn argymell cynyddu pwysoliad dangosyddion amddifadedd cymdeithasol, ynghyd â mesurau wedi eu mireinio ar gyfer asesu gwasgariad y boblogaeth a phatrymau cyfanheddu. Roedd y Pwyllgor yn gyffredinol o blaid cyflwyno'r fformiwla newydd yn 2001-02, ynghyd â'r trefniadau trosiannol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder am y diffyg data o ardaloedd lleol a theimla'r Pwyllgor y dylid cryfhau'r fformiwla pan y gellir cyflwyno data newydd neu fireinio'r fethodoleg.

23. Mae'r Pwyllgor wedi cefnogi'r cilio oddi wrth ragnodi cyllid llywodraeth leol a datblygu'r system newydd o gytundebau polisi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau polisi.

24. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried agweddau eraill ar y system gyllido llywodraeth leol hefyd, yn bennaf yng nghyd-destun y papur ymgynghorol *Symleiddio'r System – Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru*. Bu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhoi cyflwyniad gerbron y Pwyllgor i roi barn llywodraeth leol ar y system. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb penodol yng nghynigion y Cabinet ar gyfer treth busnes atodol, lle y dadleuodd o blaid gosod trefniadau partneriaeth cryf yn eu lle er mwyn amddiffyn buddiannau a diddordebau busnesau lleol.

***(iv) Adfywio trefol***

25. Ym mis Mai 2000, bu'r Pwyllgor yn ystyried trosolwg o rôl y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag adfywio trefol. Yn dilyn hynny bu'n ystyried y Gronfa Adfywio Lleol a'r Rhaglen Fenter Cymunedol URBAN II yn fanwl, yn cynnwys cyflwyniad gan Bartneriaeth Gorllewin Wrecsam. Cafwyd cyflwyniadau gan Groundwork Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo hefyd.

26. Yn nhymor yr hydref, bu'r Pwyllgor yn ystyried ymateb y Cynulliad Cenedlaethol i Bapur

Gwyn Trefol Llywodraeth y DU.

***(v) Lleihau troseddau***

27. Ym mis Mai a Mehefin 2000, bu'r Pwyllgor yn ystyried rôl y Cynulliad mewn perthynas â throsedd ac anhrefn, yn cynnwys cyflwyniad gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ym mis Hydref cyflwynodd Cyfarwyddwr Lleihau Troseddu Cymru gyflwyniad gerbron y Pwyllgor, a darparodd y Gweinidog adroddiad cynnydd ar ddiwedd tymor yr hydref.

***(vi) Materion trawsbynciol***

28. Ym mis Mehefin 2000, bu'r Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r papur ymgynghorol *Cymru Cynaliadwy – Dysgu Byw'n Wahanol*. Yn fwy diweddar, bu'n ystyried adroddiad blynyddol cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol ar anfantais cymdeithasol.

29. Mae'r Pwyllgor wedi cymryd diddordeb mawr ym materion plant hefyd. Ym mis Mehefin 2000 bu'n ystyried y cynllun grant Chwarae 2000, ac ym mis Chwefror 2001 bu'n trafod yr adroddiad *Cyflwr Chwarae*. Hefyd mae'r Pwyllgor wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig ar ofal plant yng Nghymru.

***Adolygu gwariant a gweinyddiaeth – Rheol Sefydlog 9.7 (ii)***

30. Roedd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai, a ddaeth yn Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Lleol a Chymunedau yn ddiweddarach, yn darprau adroddiadau ysgrifenedig neu ar lafar ym mhob cyfarfod Pwyllgor. Roedd hyn yn sicrhau bod yr Aelodau'n gwybod am y materion cyfredol ac yn galluogi'r Pwyllgor i adolygu'r datblygiadau o fewn y portffolio.

***Adolygu Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad – Rheol Sefydlog 9.7 (iii)***

31. Cymharol brin yw'r Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor. Yn nhymor yr hydref, gwnaeth y Pwyllgor ystyried Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol ar gyfer 1999-2000.

32. Yn nhymor y gwanwyn, cafwyd cyflwyniad gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Reoliadau Adeiladu. Mae hwn yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol a noddir gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau (DETR), sy'n cynghori Gweinidogion ynghylch rheoliadau adeiladu yng Nghymru a Lloegr.

***Deddfwriaeth arfaethedig – Rheol Sefydlog 9.8 (i)***

33. Ni dderbyniodd y Pwyllgor wahoddiad i graffu ar unrhyw is-ddeddfwriaeth ddrafft yn unol â Rheol Sefydlog 22. Fodd bynnag, bu'r Pwyllgor yn ystyried fersiwn ddrafft y Rheoliadau Tai (Cadw'r Hawl i Brynu) (Diwygio) (Cymru) 2001 cyn i'r Gorchymyn gael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Busnes. Hefyd, trwy ystyried y materion polisi perthnasol, llwyddodd y Pwyllgor i ddylanwadu ar lawer o'r ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â llywodraeth leol a thai a gyflwynwyd gerbron y Cynulliad yn ystod y flwyddyn.

34. Yn dilyn penderfyniad a basiwyd gan y sesiwn llawn, ym mis Chwefror 2001 cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad i'r sesiwn llawn ar oblygiadau'r Mesur Cartrefi ar Gymru.

***Y Gyllideb – Rheol Sefydlog 9.8 (ii)***

35. Ym mis Mehefin 2000 bu'r Pwyllgor yn ystyried papur comisiynu ar gyfer rownd cyllideb 2000, yn ogystal â phapur materion gan Ysgrifennydd y Cynulliad. Ar sail y trafodaethau hyn, hysbysodd y Pwyllgor y Cabinet am y blaenoriaethau i'r gyllideb.

36. Cyn cynnig sylwadadu ar y gyllideb ddrafft yn yr hydref, bu'r Pwyllgor yn gwrando ar gyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn nodi eu hachos o blaid buddsoddi yng ngwasanaethau ac asedau llywodraeth leol.

***Cwynion – Rheol Sefydlog 9.8 (iii)***

37. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion at y Pwyllgor yn ôl y drefn a amlinellwyd gan Reol Sefydlog 21.

***Penodiadau Cyhoeddus – Rheol Sefydlog 9.8 (iv)***

38. Hyd at fis Tachwedd 2000, roedd Alison Halford a Janet Ryder yn gwasanaethu ar y Panel Penodiadau Cyhoeddus sy'n goruchwylio'r penodiadau cyhoeddus o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Yn dilyn newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor, cymrwyd lle Alison Halford ar y Panel gan Gwenda Thomas.

***Materion a gyfeiriwyd gan y Cynulliad – Rheol Sefydlog 9.8 (v)***

39. Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion i'r Pwyllgor gan y Cynulliad, ac eithrio cais i gyflwyno adroddiad ar y Mesur Cartrefi, fel a grybwyllwyd uchod.

**Blaen raglen waith**

40. Nodir rhaglen waith y Pwyllgor yn ei flaen raglen waith strategol ar gyfer y cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2002.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai** **Mai 2001**